CYNGOR CYMUNED BRO

# MACHNO

Mawrth, 10 Ionawr 2023 – 7.30yh

Shiloh, Cwm Penmachno

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd **nos Fawrth 10 Ionawr 2023** am 7.30 yn y Shiloh, Cwm Penmachno

1. Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb
2. Datgan diddordeb
3. Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf
4. Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (nid fel arall ar yr agenda)
5. Gohebiaeth
6. Adroddiad Cyllidol
7. Materion Cynllunio
8. Materion eraill

**Presennol**:
Ceri Phillips
Claire Roberts
Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd)
Daniel Tomos (Clerc)
Dylan Davies
Eifion Davies
Eryl Owain (Is Gadeirydd)
Geraint Thomas
Wil Edwards
Dilwyn Roberts (Cynghorydd Sir)

**Ymddiheuriadau**:
Owen Davis

Agorwyd y cyfarfod gan y cadeirydd.

## Datgan diddordeb

Nid oedd unrhyw ddatganiadau

## Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod **10 Tachwedd 2022** fel rhai cywir, Eryl Owain yn cynnig a Geraint Thomas yn eilio.

Minutes of a meeting held on **Tuesday 10 January 2023** at 7.30 at the Shiloh, Cwm Penmachno

1. Welcome and apologies for absence
2. Declaration of interests
3. Confirmation of the minutes from the previous meeting
4. Matters arising from the minutes (not otherwise on the agenda)
5. Correspondence
6. Financial Report
7. Planning Applications
8. Any other business

**Present:**
Ceri Phillips
Claire Roberts
Dafydd Gwyndaf (Chairperson)
Daniel Tomos (Clerc)
Dylan Davies
Eifion Davies
Eryl Owain (Deputy Chair)
Geraint Thomas
Wil Edwards
Dilwyn Roberts (County Councillor)

**Apologies:**
Owen Davis

The meeting was opened by the chairperson.

## Declaration of interests

There were no declarations

## Confirmation of the minutes

The minutes of the **10 November 2022** meeting were accepted as a true record, proposed by Eryl Owain and seconded by Geraint Thomas.

## Materion yn codi:

**Toiledau Cyhoeddus:** Adroddwyd bod angen cloddio ffos y tu ôl i'r adeilad. Penderfynwyd cysylltu â'r perchennog.

**Wal Mynwent Arwelfa**: Mae'r Cyngor yn aros am un pris arall. Adroddwyd fod rhywun wedi gyrru i mewn a difrodi'r giatiau.

**Loriau yng Nghwm Penmachno:** Penderfynwyd cysylltu â Llywodraeth Cymru eto a'r Cyngor Sir.

**Tyddyn Gethin:** Bydd dyddiad yn cael ei drefnu yn fuan ar gyfer ymweliad â'r safle.

**Gorlan:** Adroddwyd bod y perchennog wedi dechrau hysbysebu'r safle drwy Airbnb eto. Mae Awdurdod y Parc yn y broses o ysgrifennu at y perchennog.

**WiFi Cymunedol:** Adroddwyd bod Openreach wedi gosod y cysylltiad rhyngrwyd. Mae gwirfoddolwyr o'r pentref yn barod i ddechrau gweithio ar y 'Wifi-am-ddim'.

## Gohebiaeth

**Goleuadau Nadolig:** Adroddwyd bod y Cyngor Cymuned wedi cael cais i gyfrannu at gost goleuadau Nadolig ar Bont Llan. Bydd y Clerc yn gofyn faint o gyfraniad sy'n cael ei ofyn amdano.

## Adroddiad Cyllidol

Nodwyd bod £8,938.13 yn y banc.

**Talwyd y biliau canlynol**: Clerc (Archwiliad) £250, E.ON (Toiledau cyhoeddus) £20, Eglwys Unedig (Llogir Neuadd) £120, Eglwys Unedig (Glanhau'r toiledau) £480, Google £9.20, OG Evans (Torri gwair y fynwent) £1,600, HSBC £10.30

**Talwyd y canlynol i mewn**: Arian o'r toiledau cyhoeddus £53.60, Sir Conwy (Cynllun Toiledau Cymunedol) £500, (praesept) £2,000, (Grant byrddau picnic: 80% heb gynnwys TAW) £2,308, Elusen Penmachno (Grant Wifi) £800

## Praesept

Roedd trafodaeth fanwl am braesept a'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn y flwyddyn i ddod. Ar adeg pan fo pawb yn y gymuned yn wynebu mwy o bwysau ariannol, cytunwyd yn unfrydol i gynyddu'r praesept dim ond ychydig i £7,500.

## Matters arising:

**Public Toilets:** It was reported that a trench needs to be dug behind the building. It was decided to contact the landowner.

**Arwelfa Cemetery Wall:** The Council is awaiting one more quote. It was reported that someone has driven into and damaged the gates.

**Lorries in Cwm Penmachno:** It was decided to contact the Welsh Government again and the County Council.

**Tyddyn Gethin:** A date will be arranged soon for a site visit.

**Gorlan:** It was reported that the owner has started advertising the site through Airbnb again. The Park Authority are in the process of writing to the owner.

**Community WiFi:** It was reported that Openreach had installed the internet connection. Volunteers from the village are ready to start work on the 'free-Wifi'.

## Correspondence

**Christmas lights**: It was reported that the Community Council had been asked to contribute to the cost of Christmas lights on Pont Llan. The Clerk will ask how much of a contribution is being asked for.

## Financial Report

It was noted that there was £8,938.13 in the bank.

**The following bills were paid:** Clerk (audit) £250, E.ON (Public toilets) £20, Eglwys Unedig (Neuadd hire) £120, Eglwys Unedig (Cleaning toilets) £480, Google £9.20, OG Evans (mowing cemetery) £1,600, HSBC £10.30

**The following was paid in:** Money from public toilets £53.60, Conwy County (Community Toilet Scheme) £500, (precept) £2,000, (Picnic table grant: 80% excluding VAT) £2,308, Penmachno Charity (Wifi grant) £800

## Precept

There was a detailed discussion about precept and the financial pressure faced by the council in the coming year. At a time when everyone in the community is facing increased financial pressure, a modest increase to £7,500 was agreed unanimously.

## Materion Cynllunio

Doedd yna ddim ceisiadau cynllunio newydd.

**Gwesty'r Machno:** Adroddwyd bod llythyr wedi ei ysgrifennu at berchennog yr adeilad a derbyniwyd ateb. Penderfynwyd aros tan y cyfarfod nesaf a gweld a oes gwelliant sylweddol yn y safle.

**Swch:** Adroddwyd bod y garafán bellach yn wag ac wedi ei chondemnio.

## Materion eraill

**Llwybr Cyhoeddus 55: Pen-y-Waen - Stryd Llewelyn:** Mae'r mater wedi ei adrodd i'r Cyngor Sir. Penderfynwyd adrodd am y broblem i Openreach am fod dŵr yn llenwi eu blwch tanddaearol.

**Glanhau'r Toiledau Cyhoeddus:** Cytunwyd yn unfrydol y dylai'r taliad blynyddol godi i £520.

**Bagiau Halen:** Cytunwyd i brynu mwy o fagiau halen/graean rhag ofn y tywydd rhewllyd.

**Cyfarfod nesaf**
Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 14 Mawrth, 7.30 yn Neuadd Ty'n y Porth.

## Planning

There were no new planning applications.

**Machno Inn:** It was reported that a letter had been written to the owner of the building and a reply received. It was decided to wait until the next meeting and see if there is a noticeable improvement in the site.

**Swch:** It was reported that the caravan is now vacant and has been condemned.

## Other matters

**Public Footpath 55: Pen-y-Waen - Stryd Llewelyn:** The matter has been reported to the County Council. It was decided to report the problem to Openreach because water is filling their underground box.

**Cleaning of the Public Toilets:** It was agreed unanimously that the annual payment should rise to £520.

**Salt Bags:** It was agreed to buy more salt/grit bags in case of freezing weather.

**Next meeting**
The next meeting will be held on Tuesday 14 March 2023 at Neuadd Ty'n y Porth.